

Stori Newid Caerdydd



Cynnwys

Rhagair	3
Crynodeb o'r Daith	4
1.1 Addysg ar Hawliau Plant - Datblygu'r Gweithlu.....	5
1.2 Addysg ar Hawliau Plant - Gwobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau	8
2. Place: Urban Planning & Design	13
3. Cyfranogiad	18
4. Cyfartal a Chynwysedig	25
Casgliad	29

Rhagair

Roedd ennill statws Dinas sy'n Dda i Blant yn 2023 yn foment nodedig i Gaerdydd, ac mae'n parhau i fod yn un o'r cyflawniadau yr ydym yn fwyaf balch ohonynt. Roedd yn cydnabod sawl blwyddyn o waith parhaus i ymgorffori hawliau plant ledled y ddinas ac yn adlewyrchu ymrwymiad, ymroddiad a chydweithrediad staff, partneriaid, ysgolion, a'r nifer o blant a phobl ifanc a gyfrannodd at lunio'r agenda hon.

Ers derbyn yr achrediad, rydym wedi parhau i gryfhau a dyfnhau'r gwaith hwn. Mae hawliau plant yn dod yn fwyfwy ymgorfforedig mewn arfer pob dydd, ac mae'r egwyddorion a arweiniodd ein taith i achrediad bellach yn cael eu hadlewyrchu'n fwy cadarn yn y ffordd y mae gwasanaethau yn cael eu dylunio a'u darparu. Mae'r Stori Newid hon yn darparu asesiad i'w groesawu o'r cynnydd a wnaed dros y tair blynedd diwethaf, ac yn tynnu sylw at ehangder a dyfnder y gweithgarwch sy'n mynd rhagddo ledled y ddinas.

Bu cynnydd cryf a pharhaus. Mae mwy na 80% o ysgolion a gynhelir bellach wedi'u hachredu trwy'r Wobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau, gydag ymgysylltiad yn parhau i dyfu. Mae datblygiad y gweithlu wedi ehangu'n sylweddol, gyda'r rhan fwyaf o staff y Cyngor bellach wedi cwblhau hyfforddiant ar hawliau plant. Rydym hefyd yn gweld plant a phobl ifanc yn cyfrannu'n fwy rheolaidd at lunio polisiau a gwasanaethau, gyda chyfranogiad yn dod yn fwy cyson ac wedi'i integreiddio'n well i'r broses o wneud penderfyniadau. Mae'r datblygiadau hyn yn adlewyrchu diwylliant lle mae dulliau sy'n seiliedig ar hawliau yn cael eu deall, eu blaenoriaethu a'u gweithredu fwyfwy.

Mae'r adroddiad hefyd yn cydnabod yr heriau sy'n parhau i siapia'r gwaith hwn. Mae anghydraddoldeb, angen cynyddol a phwysau ar wasanaethau cyhoeddus yn parhau. Mae'r galw yn tyfu ac yn dod yn fwyfwy cymhleth.

Mae'r pwysau hyn yn tanlinellu pwysigrwydd cynnal dull sy'n seiliedig ar hawliau, a chynnal buddsoddiad yn y sgiliau, y perthnasoedd a'r strwythurau cyfranogiad sy'n ei gefnogi.

Mae'r holl gynnydd hwn yn rhan o'n hymrwymiad parhaus i fod yn Ddinas sy'n Dda i Blant. Wrth i ni edrych ymlaen, ein bwriad yw adeiladu ar y sylfeini cadarn sydd eisoes ar waith, ac i barhau i gryfhau'r systemau, y diwylliant a'r arferion sy'n galluogi hawliau plant i gael eu hymgorffori ledled y ddinas. Mae ceisio ailachredu yn gam pwysig wrth adnewyddu'r ymrwymiad hwnnw a sicrhau bod gan bob plentyn a pherson ifanc yng Nghaerdydd fynediad at y cyfleoedd, y gefnogaeth, a'r profiadau y maent yn eu haeddu.

Rydym yn falch o'r hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma, ac yn parhau i ganolbwyntio ar barhau â'r daith hon. Gan weithio ochr yn ochr â phlant a phobl ifanc, ysgolion, partneriaid a chymunedau, byddwn yn parhau i sicrhau bod hawliau plant yn cael eu deall, eu hymgorffori a'u hadlewyrchu ym mhrofiadau pob plentyn a pherson ifanc ledled y ddinas.

Y Cyngorydd Sarah Merry (Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg)
Emily Gao (Cadeirydd Cyngor Ieuenctid Caerdydd)

Crynodeb o'r Daith

Since beginning the Child Friendly City journey, Cardiff has made sustained progress in embedding children's rights into the way the city plans, decides, and delivers. Between 2023 and 2026, the city has shifted from early participation and pilot activity toward a clearer, more intentional focus on strengthening its four core priorities:

- Addysg ar Hawliau Plant
 - Datblygu'r Gweithlu
 - Gwobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau
- Lle: Cynllunio a Dylunio Trefol
- Cyfranogiad
- Cyfartal a Chynwysedig

Yn ystod y cyfnod hwn, mae Caerdydd wedi buddsoddi mewn datblygu sgiliau, gwybodaeth a hyder staff i gymhwyso hawliau plant yn ymarferol, wrth hefyd adeiladu diwylliant sydd wedi'i wreiddio mewn urddas a pharch at fabanod, plant a phobl ifanc. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran ymgorffori addysg ar hawliau plant ar draws y gweithlu ac ysgolion a gynhelir; hyrwyddo ymagweddau hawliau plant at gynllunio a'r amgylchedd adeiledig; cryfhau strwythurau cyfranogiad ystyrion i blant; a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb trwy ffocws parhaus ar gynhwysiant a thegwch.

Ar yr un pryd, mae'r ddinas wedi parhau i fod yn onest ynglŷn â'r heriau sy'n parhau, gan gynnwys angen cynyddol ac anghydraddoldeb sy'n ehangu. Mae'r Stori Newid hon yn adlewyrchu dull system gyfan sy'n aeddfedu — un sy'n cydnabod plant fel deiliaid hawliau a phartneriaid wrth lunio dyfodol Caerdydd. At ei gilydd, mae'r pedair blaenoriaeth hyn yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer cam nesaf y Cynllun Cynaliadwyedd ac ar gyfer parhau i ymgorffori hawliau plant ym mhob agwedd ar lywodraethu'r ddinas.

Mae rhagor o fanylion am gynnydd, dysgu ac effaith ar draws y cyfnod hwn wedi'u nodi yn Adroddiadau Blynyddol Caerdydd sy'n Dda i Blant ar gyfer 2023–24 a 2024–25, sy'n darparu tystiolaeth a chyd-destun ychwanegol i'r Stori Newid hon.

Adroddiad Blynyddol 23 24 - [Adroddiad Blynyddol CDdB 23-24](#)

Adroddiad Blynyddol 24 25 - [Adroddiad Blynyddol CDdB 24-25](#)

1.1 Addysg ar Hawliau Plant - Datblygu'r Gweithlu

Ar draws y ddinas, rydym am i blant feddu ar wybodaeth dda am hawliau plant a chael eu cefnogi'n weithredol i fynnu eu hawliau.

Trosolwg a Diben

Mae'r flaenoriaeth hon yn ymwneud ag ymgorffori Hawliau Plant yn niwylant y Cyngor fel bod pob penderfyniad a gwasanaeth yn adlewyrchu ymrwymiad i hawliau a lles babanod, plant a phobl ifanc. Ein nod yw creu gweithlu sy'n deall yr egwyddorion hyn ac sy'n gallu eu cymhwyso'n hyderus mewn ymarfer beunyddiol. Trwy fframwaith hyfforddi cynhwysfawr a hygyrch, rydym yn ceisio adeiladu gwybodaeth, newid agweddau, a dylanwadu ar ymddygiadau ar draws y sefydliad.

Mae hefyd yn cefnogi Cynllun Corfforaethol Cyngor Caerdydd drwy gryfhau ein hymrwymiad i degwch, cynhwysiant a diogelu, gan sicrhau bod lleisiau plant wedi'u hymgorffori wrth ddarparu gwasanaethau. Yn ogystal, mae'n cyflawni dyletswyddau statudol o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol alluogi plant i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Trwy arfogi staff â'r sgiliau i gymhwyso Hawliau Plant yn ymarferol, rydym yn bodloni amcanion strategol a rhwymedigaethau cyfreithiol i roi plant wrth galon llywodraethu lleol.

Stori Newid (2023-26)

1. Cyflwyno e-ddysgu ar Hawliau Plant i 85% o Staff y Cyngor, Ymestyn hyfforddiant hawliau plant cymhwysol i adrannau eraill a phartneriaid allanol, a datblygu adnoddau a modiwlau pwrpasol.

Rhwng 2023 a 2026, ymgorfforodd Cyngor Caerdydd Hawliau Plant mewn hyfforddiant craidd drwy wneud y modiwl e-ddysgu yn un o wyth cwrs gorfodol i'r holl staff. Mae'r modiwl 30 munud hwn yn darparu sylfaen ar gyfer deall Hawliau Plant, gyda chymorth sesiynau wyneb yn wyneb a rhithwir estynedig i'w cymhwyso'n ymarferol. Her allweddol oedd cyrraedd staff heb fynediad rheolaidd at gyfrifiadur personol neu'r rheini sy'n ffafrio fformatau amgen. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, gwnaethom ymgysylltu'n uniongyrchol â thimau â chyfraddau diffyg cydymffurfio uchel, gan ofyn sut y gellid gwneud hyfforddiant yn fwy hygyrch. O ganlyniad, datblygwyd yr adnoddau a amlinellir uchod, ochr yn ochr â chymorth wedi'i deilwra. Profodd y dull hwn yn effeithiol iawn. Er enghraifft, gwnaeth tîm o fewn cyfarwyddiaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cyngor, sy'n cynnwys unigolion nad ydynt yn ddefnyddwyr cyfrifiaduron personol yn bennaf, wella cydymffurfiaeth gan fwy na 60% yn 2025.

Gwnaethom hefyd gyflwyno hyfforddiant pwrpasol i grwpiau y mae angen ymgysylltiad dyfnach arnynt, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol y blynyddoedd cynnar, gofawyr maeth, llywodraethwyr ysgolion, ac aelodau etholedig. Ar gyfer gweithwyr proffesiynol y blynyddoedd

cynnar, roedd sesiynau yn canolbwyntio ar strategaethau ar gyfer cynnal Erthygl 12, yr hawl i gael eu clywed, yn enwedig ar gyfer plant ifanc iawn neu blant dieiriau. Addaswyd pob rhaglen o ran cynnwys a chyflwyniad i ddiwallu anghenion unigryw'r grwpiau hyn, gan atgyfnerthu ein hymrwymiad i ymgorffori Hawliau Plant ar draws pob lefel o lywodraethu a darpariaeth gwasanaethau.

2. Nodi a gwella sgiliau rhwydwaith o reolwyr

Ar ddechrau'r daith hon, ein nod oedd creu modiwl Hawliau Plant pwrpasol ar gyfer rheolwyr, a sefydlu rhwydwaith o hyrwyddwyr ar draws y Cyngor. Fodd bynnag, roedd hyn yn heriol oherwydd agendâu sy'n gwrthdaro, pryderon ynghylch gorlwytho swyddogion â hyfforddiant, a'r anhawster o gynnal ymgysylltiad a brwdfrydedd dros amser.

Mewn ymateb, gwnaethom ddatblygu dewis arall ymarferol: y Canllawiau Hawliau Plant i Reolwyr, sy'n amlinellu pum ffordd syml y gall rheolwyr hyrwyddo ac ymgorffori Hawliau Plant yn eu timau. Mae'r dull hwn yn darparu hyblygrwydd wrth barhau i hyrwyddo cyfrifoldeb arweinyddiaeth ar gyfer arfer sy'n seiliedig ar hawliau. Wrth edrych ymlaen, rydym yn bwriadu archwilio sut mae'r canllawiau hyn wedi'u gweithredu yn ymarferol, a nodi cyfleoedd i gryfhau ymgysylltiad rheolwyr ymhellach.

3. Cyflwyno rhaglen hyfforddi i Aelodau Etholedig

Mae cyflwyno hyfforddiant ar Hawliau Plant i Aelodau Etholedig wedi bod yn her barhaus oherwydd presenoldeb isel, ac mae'n parhau i fod yn ffocws allweddol ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Rydym yn bwriadu gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn yr adrannau Gwasanaethau Democrataidd a TG i ddylunio fframwaith hyfforddi wedi'i deilwra i allu a gofynion unigryw Aelodau Etholedig. Gydag etholiadau'r Cyngor yng Nghymru wedi'u trefnu ar gyfer mis Mai 2027, ein blaenoriaeth yw ymgorffori Hawliau Plant yn y broses sefydlu, fel bod Aelodau Etholedig newydd yn cael eu cyflwyno i'r egwyddorion a'u perthnasedd yn y broses o wneud penderfyniadau o ddechrau eu cyfnod yn y swydd. Bydd y dull hwn yn sicrhau bod Hawliau Plant yn cael eu deall a'u hyrwyddo ar y lefel uchaf o lywodraethu lleol.

Llais y Plentyn

"Nid yw hawliau yn brosiect. Maen nhw'n addewid."

Mae hyn yn pwysleisio nad yw hawliau plant yn ddewisol ond yn warantau sylfaenol. Mae hyfforddiant yn hanfodol i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn deall eu rôl fel deiliad dyletswydd, ac yn ymgorffori'r egwyddorion yn eu harfer pob dydd.

"Mae'n teimlo'n wahanol pan fydd cynghorwyr ac uwch staff wir yn gwrando."

"Rydyn ni am i bobl wrando arnom yn iawn, nid gofyn am gyfraniad yn unig." "Rydyn ni am fod yn rhan o benderfyniadau, nid rhoi barn yn unig."

Mae'r dyfyniadau hyn yn dangos pam mae hyfforddiant yn hanfodol i weithwyr proffesiynol a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau: mae'n rhoi'r sgiliau iddynt wrando ar bobl ifanc a'u cynnwys yn ystyrion mewn ymgynghori ac wrth wneud penderfyniadau. Mae hyn yn sicrhau bod polisiâu a gwasanaethau yn adlewyrchu anghenion y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, sy'n cynnwys babanod, plant a phobl ifanc.

Safbwyntiau Partner a System

Mae datblygu fframwaith hyfforddi Hawliau Plant cadarn wedi dibynnu ar bartneriaethau cryf ar draws y Cyngor a chyda sefydliadau allanol. Ar y dechrau, roedd canllawiau gan Blant yng Nghymru yn siapio cynnwys a chyflwyniad, gan sicrhau aliniad ag arferion gorau a gofynion deddfwriaethol.

Yn fewnol, roedd cydweithio â thîm hyfforddi'r Cyngor yn hanfodol wrth alluogi'r Swyddog Hyfforddi CAC i ddefnyddio systemau mewnol yn effeithiol, gan gryfhau'r sylfaen dechnegol ac integreiddio'r rhaglen. Mae'r Swyddog Hyfforddi CAC hefyd wedi adeiladu perthnasoedd ar draws adrannau i ddarparu hyfforddiant pwrpasol. Er enghraifft, arweiniodd gweithio gyda Gwasanaeth Arlwy'r Ysgol at ddatrysiaid wedi'i deilwra, fideo byr wedi'i lanlwytho i Google Classroom, gan ganiatáu mynediad hyblyg a hybu cyfranogiad.

Yn yr un modd, arweiniodd partneriaethau gyda'r Gwasanaeth Ieuencid a'r Tîm Maethu at sesiynau pwrpasol a oedd yn canolbwyntio ar gymhwyso Hawliau Plant mewn rolau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar fabanod, plant a phobl ifanc.

Mae'r cydweithrediadau hyn wedi bod yn hanfodol wrth greu fframwaith hyfforddi hyblyg, cynhwysol sy'n diwallu anghenion amrywiol.

Myfyrion a Dysgu

Dros y tair blynedd diwethaf, mae Cyngor Caerdydd wedi gwneud cynnydd da o ran ymgorffori Hawliau Plant, ond mae'r daith wedi tynnu sylw at wersi pwysig.

Un o'r gwersi pwysicaf o'r daith hon yw gwerth hyblygrwydd wrth ddylunio a chyflwyno hyfforddiant. Pan oedd mynediad digidol yn rhwystr, gwnaethom addasu trwy greu adnoddau amgen fel llyfrau gwaith y gellir eu hargraffu, cyflwyniadau PowerPoint, a fideos hyfforddi. Yn yr un modd, cafodd sesiynau pwrpasol eu teilwra i anghenion unigryw gwahanol grwpiau, archwiliodd gweithwyr proffesiynol y blynyddoedd cynnar ffyrdd ymarferol o gynnal Erthygl 12 ar gyfer plant dieiriau, wrth i lywodraethwyr ysgolion ac Aelodau Etholedig dderbyn cynnwys a oedd yn canolbwyntio ar lywodraethu a gwneud penderfyniadau. Sicrhodd yr addasiadau hyn fod hyfforddiant Hawliau Plant yn parhau i fod yn hygyrch, yn berthnasol ac yn effeithiol ar draws gweithlu amrywiol.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r dull hyblyg hwn yn y dyfodol, gan addasu cynnwys a dulliau cyflwyno i ddiwallu anghenion esblygol y Cyngor a'i weithlu.

1.2 Addysg ar Hawliau Plant - Gwobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau

Ar draws y ddinas, rydym am i blant feddu ar wybodaeth dda am hawliau plant a chael eu cefnogi'n weithredol i fynnu eu hawliau.

Trosolwg a Diben

Mae dull Caerdydd o gyflawni ei huchelgais bod babanod, plant a phobl ifanc yn dysgu am eu hawliau ac yn cael eu cefnogi i'w hawlio, wedi'i seilio ar ymrwymiad parhaus i ymgorffori hawliau plant ar draws y system addysg. Mae'r gwaith hwn wedi'i gynnwys o fewn rhaglen ehangach o addysg ar hawliau plant dan Flaenoriaeth 1, ac mae'n canolbwyntio'n benodol ar newid o fewn lleoliadau addysg a gynhelir.

Mae Gwobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau (GYPH) UNICEF y DU yn darparu fframwaith strwythuredig â sicrwydd ansawdd sy'n cefnogi ysgolion i ymgorffori hawliau plant mewn arferion pob dydd, gan gynnwys addysgu a dysgu, perthnasoedd, gwneud penderfyniadau a diwylliant ysgol. Trwy'r ffrwd waith hon, cefnogir plant i ddeall eu hawliau, i gael eu clywed, ac i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau ysgol, wrth i oedolion gael eu cefnogi i weithredu'n fwy cyson ac atebol fel deiliaid dyletswydd.

Diben y gwaith hwn yw sicrhau nad yw hawliau plant yn cael eu profi fel egwyddorion haniaethol, ond fel rhywbeth real, cyson ac ystyrlon ym mywyd beunyddiol yr ysgol. Mae hyn yn golygu bod plant yn gwybod bod ganddynt hawliau, yn profi urddas a thegwch yn eu perthnasoedd, ac yn cael eu cefnogi i gymryd rhan, a bod eu barn yn cael ei chymryd o ddifrif. Rhoddir pwyslais arbennig ar sicrhau bod y profiad hwn yn deg ac yn ymatebol i anghenion gwahanol, yn hytrach na dibynnu ar ysgolion neu staff unigol.

Stori Newid (2023-26)

Rhwng 2023 a 2026, symudodd Caerdydd ei ffocws o gynyddu cyfranogiad yn y GYPH i gryfhau dyfnder, cysondeb a chynaliadwyedd arfer ar draws ysgolion.

Cynyddodd ymgysylltu â'r wobwr o 65 y cant o ysgolion a gynhelir yn 2023 i 82 y cant erbyn dechrau 2026, gyda 105 o 127 o ysgolion yn ymgysylltu ar lefel Efydd, Arian neu Aur. Cryfhodd cynnydd hefyd, heb unrhyw dystiolaeth o farweidd-dra ar draws y system.

Gwellodd dyfnder yr ymgorffori ochr yn ochr â'r twf hwn. Ymysg ysgolion cynradd ac arbennig, cynyddodd y gyfran o oedd yn cyflawni Arian neu Aur o 40 y cant yn 2023 i 56.9 y cant erbyn 2026, gan ddangos cynnydd parhaus y tu hwnt i ymgysylltu cychwynnol.

Daeth cyflwyno'r wobwr yn fwy cynaliadwy. Sicrhodd cyllid canolog fynediad cyfartal i bob ysgol a gynhelir, wrth i hyfforddiant UNICEF o swyddogion awdurdodau lleol fel aseswyr arian achrededig alluogi asesiadau a chymorth i gael eu cyflwyno'n lleol ac yn gyson.

Cefnogwyd ysgolion ymhellach trwy ddigwyddiadau blynyddol Hawl i Barch mewn Ysgolion, a ddaeth â phlant, cydlynwyr ysgolion, a gweithwyr proffesiynol ynghyd i rannu dysgu, meithrin gallu ac atgyfnerthu dull dinas gyfan.

Cryhawyd goruchwyliaeth system hefyd trwy ddatblygu cronfa ddata GYPH fyw, gan gefnogi monitro parhaus, nodi rhwystrau i gynnydd yn gynnar, a chymorth mwy targedig.

At ei gilydd, mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu symudiad o ddatblygu cyfranogiad i gynnal ymagwedd gydlynol, ledled y ddinas at addysg hawliau plant, gyda phwyslais cynyddol ar arfer diogel a chyson.

Crynodeb o'r Effaith

Ar y cyfan, mae Caerdydd wedi gwneud cynnydd clir, parhaus a system gyfan o ran ymgorffori addysg hawliau plant mewn ysgolion drwy'r GYPH. Mae'r dyfarniad hwn yn cael ei ategu gan dystiolaeth ansoddol o adroddiadau asesu Arian ac Aur, gan gynnwys tystiolaeth uniongyrchol gan blant a staff ysgol, a gyflwynir yn y cyflwyniad tystiolaeth cysylltiedig.

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod hawliau plant yn cael eu deall, eu profi a'u gweithredu fwyfwy o fewn bywyd ysgol. Mae ymgysylltiad cynyddol, cynnydd cyflym trwy Arian ac Aur, ac absenoldeb marweidd-dra eang yn awgrymu bod dulliau sy'n seiliedig ar hawliau yn cael eu hymgorffori'n fwy diogel dros amser, yn hytrach na'u bod yn cael eu trin fel mentrau byrdymor.

Ar lefel system, mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu mwy o gysondeb a gwytnwch. Mae cyllid canolog, gallu asesu lleol, cyfleoedd dysgu a rennir, a goruchwyliaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth, wedi lleihau dibyniaeth ar hyrwyddwyr unigol ac wedi cryfhau atebolrwydd, gan wella gallu'r system i gynnal momentwm ac ymateb i heriau.

Llais y Plentyn

Yn bwysig, mae effaith y gwaith hwn yn weladwy ym mhrofiad byw plant. Mae tystiolaeth o adroddiadau asesu yn dangos bod plant yn gallu disgrifio eu hawliau, esbonio sut maent yn cael eu parchu yn yr ysgol, a rhoi enghreifftiau pendant o sut mae eu barn yn dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

"Yn fy ngwlad enedigol, ni chawsom ein dysgu am hawliau. Doeddwn i ddim yn teimlo'n ddiogel, ac nid oedd gennym lais yn yr ysgol. Dim ond pan gyrhaeddais i Cantonian y dysgais am hawliau. Gwnaeth wella fy hyder, ac rwy'n teimlo fy mod wedi fy ngrymuso nawr." - Disgybl, Ysgol Uwchradd Cantonian, Adroddiad Arian

Mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos newid mewn arfer oedolion a diwylliant ysgol. Mae staff ac arweinwyr ysgolion yn disgrifio perthnasoedd gwell, ymagweddau mwy cynhwysol at ymddygiad a lles, a mwy o bwyslais ar urddas, cyfranogiad a pharch i'r ddwy ochr.

"Os yw rhywun wedi ymddwyn mewn ffordd sy'n effeithio ar hawliau, rydym yn defnyddio dull adferol sy'n annog disgyblion i gymryd perchnogaeth o'u gweithredoedd, ac yn sicrhau bod

materion yn cael eu trafod mewn ffordd urddasol." - Aelod o staff, Ysgol Gynradd Danescourt, Adroddiad Aur

At ei gilydd, mae'r dystiolaeth hon yn cefnogi'r farn bod dull Caerdydd wedi symud y tu hwnt i weithgarwch a chydymffurfiaeth, tuag at newid parhaus mewn ffyrdd o weithio, gyda hawliau plant yn cael eu hymgorffori fwyfwy fel fframwaith a rennir ar gyfer perthnasoedd, gwneud penderfyniadau a gwella ysgolion.

Safbwyntiau Partner a System

"Mae ymrwymiad parhaus Cyngor Dinas Caerdydd i'r GYPH yn mynd o nerth i nerth. Mae gweithio a chydweithio mewn partneriaeth yn meithrin gallu lleol i gefnogi a chynghori ysgolion ac i gynnal achrediau GYPH, ar lefel Arian, ledled y ddinas. Mae'r dull hwn yn unigryw yng Nghymru ac yn adlewyrchu arfer gorau mewn mannau eraill o'r DU.

Mae ysgolion yn gwerthfawrogi diddordeb ac ymrwymiad y Cyngor i'w gwaith hawliau plant, ac yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a ddarperir iddynt i ddod ynghyd ac arddangos effaith dod yn ysgolion sy'n Parchu Hawliau.

Mae'r uchod i gyd yn cyfrannu at fodel cynaliadwy, gydag arweinwyr ysgolion yn ymddiried ac yn gwerthfawrogi cefnogaeth dan arweiniad y Cyngor i'w gwaith hawliau plant."

Martin Russel - Cyfarwyddwr Rhaglen GYPH

Mae'r cynnydd a ddisgrifir yn y Stori Newid hon wedi'i yrru gan gyfuniad o ymrwymiad strategol, seilwaith ymarferol, a sylw parhaus i sut mae hawliau plant yn cael eu gwireddu mewn arfer ysgol pob dydd.

Mae hyfforddi swyddogion awdurdodau lleol fel aseswyr arian achrededig wedi chwarae rhan sylfaenol yn ein hymrwymiad i *ddatblygu a chyflwyno dull cynaliadwy o GYPH yng Nghaerdydd*. Mae gwell capasiti a gwybodaeth leol wedi ein rhoi mewn sefyllfa unigryw i gefnogi ysgolion mewn ffordd amserol ac sy'n ymwybodol o'r cyd-destun. Cryfhodd asesiadau wyneb yn wyneb a chymorth pwrpasol berthynas ag ysgolion, a helpodd i droi egwyddorion hawliau i weithredu ymarferol, yn enwedig ar gyfer lleoliadau sy'n wynebu pwysau neu gymhlethdod ychwanegol.

Ffactor allweddol wrth *gefnogi ysgolion i ymgysylltu a symud ymlaen trwy GYPH UNICEF* oedd parhad cyllid canolog ar gyfer y fenter. Trwy gael gwared ar rwystrau ariannol i ysgolion a gynhelir, sicrhodd Caerdydd nad oedd ymgysylltu ag addysg ar hawliau plant yn dibynnu ar gyllidebau ysgolion unigol neu flaenoriaethau cystadleuol. Mae'r dull teg hwn wedi creu sylfaen sefydlog ar gyfer cyfranogiad, ac yn nodi bod hawliau plant yn gyfrifoldeb a rennir ar draws y system addysg.

Cefnogwyd cynnydd ymhellach trwy greu cyfleoedd ar gyfer cysylltiad a dysgu a rennir ar draws ysgolion. Daeth digwyddiadau blynyddol GYPH â phlant, cydlynwyr ysgolion a gweithwyr proffesiynol ynghyd, gan atgyfnerthu ymdeimlad o ymdrech ar y cyd a chyfeiriad a rennir. Roedd

y mannau hyn yn cefnogi cyfranogiad, dysgu gan gymheiriaid, a meithrin gallu, gan helpu ysgolion i ddysgu oddi wrth ei gilydd a chynnal momentwm.

Yn olaf, roedd y defnydd o dystiolaeth i lywio camau gweithredu yn cryfhau cysondeb ac atebolrwydd. Galluogodd datblygiad a defnydd parhaus cronfa ddata GYPH fyw'r Cyngor i olrhain ymgysylltiad a chynnydd, nodi gwahaniaethau a phwyntiau pwysau, a tharged cymorth lle'r oedd ei angen fwyaf. Helpodd hyn i sicrhau atebolrwydd bod cynnydd yn cael ei fonitro'n systematig, ac y gellid mynd i'r afael â heriau sy'n dod i'r amlwg, fel newidiadau staffio neu gynnydd sydd wedi'i ohirio, yn gynnar.

At ei gilydd, creodd y ffactorau hyn amodau lle gallai addysg ar hawliau plant symud o ddibyniaeth ar ymrwymiad unigol i system fwy ymgorfforedig, gwydn a theg. Cefnogwyd newid nid gan un ymyrraeth, ond gan gyllid, capasiti, cyfranogiad a goruchwyliaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn gweithio ar y cyd.

Myfyrion a Dysgu

Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaed cynnydd parhaus ochr yn ochr â dysgu pwysig sy'n parhau i lunio darpariaeth a chynaliadwyedd hirdymor addysg ar hawliau plant mewn ysgolion. Her allweddol yw cyflawni dyfnder cyson o arferion sy'n parchu hawliau ar draws gwahanol gyfnodau ysgol. Mae dystiolaeth yn dangos bod ymgorffori yn gyffredinol yn fwy sefydledig mewn ysgolion cynradd ac arbennig, gyda chynnydd mwy amrywiol mewn lleoliadau uwchradd. Mae hyn yn cyd-fynd â chymhlethdod strwythurol mwy amgylcheddau uwchradd a phwysau cenedlaethol ehangach, gan gynnwys gofynion cwricwlwm, adnoddau staffio, ac ymgysylltu disgyblion ar raddfa fawr.

Nid yw'r her hon yn unigryw i Gaerdydd, ac mae wedi ei chydabod ar draws awdurdodau lleol eraill. Mae wedi tynnu sylw at bwysigrwydd deall yn well y cyd-destunau a'r pwysau penodol sy'n wynebu ysgolion uwchradd, yn hytrach na thybio rhwystrau unfurf. Mae'r dysgu hwn yn tynnu sylw at yr angen am ymagweddau ymatebol ac wedi'u teilwra'n well at gefnogi, wedi'u llywio gan ddeialog barhaus gydag ysgolion a chydweithrediad agosach ag UNICEF UK i archwilio canllawiau mwy pwrpasol lle y bo angen.

Mae newid yn y gweithlu hefyd wedi parhau i fod yn bwynt pwysau sylweddol. Gall newidiadau mewn rolau arweinyddiaeth ysgol neu gydlynw GYPH dorri ar draws momentwm, yn enwedig lle dim ond ychydig o staff sy'n meddu ar arbenigedd. Mae hyn wedi atgyfnerthu'r angen am ddull lefel system, megis olrhain data byw, cymorth sy'n seiliedig ar berthynas, ac ailymgysylltu rheolaidd, i leihau bregusrwydd i drosiant staff a diogelu parhad.

Mae maes dysgu arall yn ymwneud â chynnal gallu asesu lleol cryf. Er bod hyfforddi swyddogion awdurdodau lleol fel aseswyr arian wedi gwella cynaliadwyedd ac ymateboldeb, mae hefyd wedi tynnu sylw at yr angen i barhau i feithrin gallu, gan gynnwys darpariaeth Gymraeg, a chynllunio ar gyfer olyniaeth yn y dyfodol. Mae cyfyngiadau cenedlaethol, megis datblygiad parhaus hyfforddiant aseswyr Aur, yn siapio'r hyn sy'n gyraeddadwy yn lleol ac yn gofyn am ddeialog barhaus ag UNICEF UK.

Mae'r myfyrdodau hyn yn berthnasol i dirwedd weithredol ehangach lle mae ysgolion yn wynebu pwysau llwyth gwaith cynyddol, heriau presenoldeb, a blaenoriaethau cystadleuol. Er gwaethaf hyn, mae ysgolion yn adrodd yn gyson bod dull hawliau plant yn gweithredu fel fframwaith unedig sy'n cryfhau arferion presennol yn hytrach nag ychwanegu baich. Mae sicrhau bod hyn yn parhau yn gofyn am eglurder, cefnogaeth ac atgyfnerthu parhaus, fel bod dulliau hawliau yn parhau i fod wedi'u hymgorffori dros amser.

At ei gilydd, mae'r heriau a'r mewnwelediadau hyn wedi llywio ein newid tuag at fwy o bwyslais ar gynaliadwyedd, cymorth targedig a gwytnwch system. Mae hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu yn ymagwedd flaengar Caerdydd. Nid yw addysg ar hawliau plant bellach yn dibynnu ar fentrau sy'n gyfyngedig o ran amser, na hyrwyddwyr unigol; yn hytrach, mae'n cael ei ymgorffori mewn strwythurau, disgwyliadau a ffyrdd system gyfan o weithio. Mae elfennau allweddol sy'n cefnogi hyn yn cynnwys cyllid canolog parhaus ar gyfer y GYPH, gallu asesu a chefnogi a gynhelir yn lleol, a goruchwyliaeth fyw, sy'n cael ei gyrru gan dystiolaeth trwy brosesau perfformiad corfforaethol. Mae'r rhain yn sicrhau bod addysg ar hawliau plant yn parhau i fod yn weladwy, yn cael adnoddau, ac yn atebol ymhell y tu hwnt i'r cyfnod cydnabyddiaeth presennol.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae cam nesaf y gwaith yn canolbwyntio ar atgyfnerthu a dyfnhau cynnydd yn hytrach nag ehangu gweithgarwch. Mae'r blaenoriaethau yn cynnwys cryfhau cymorth wedi'i deilwra i ysgolion uwchradd, parhau i ddatblygu a chynnal gallu aseswyr lleol, a sicrhau bod darpariaeth a chynhwysiant y Gymraeg yn parhau i fod yn rhan annatod. Bydd defnydd parhaus o ddata yn helpu i dargedu cymorth, nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg, a mynd i'r afael â gwahaniaethau mewn ymgysylltu neu gynnydd. Mae'r Cynllun Cynaliadwyedd cysylltiedig yn amlinellu'r blaenoriaethau, y llywodraethu a'r mesurau manwl ar gyfer y cam tair blynedd nesaf, gan ddangos ymrwymiad Caerdydd i gynnal a chryfhau dull systemig, teg a chyfranogol o addysg ar hawliau plant dros amser.

2. Place: Urban Planning & Design

Rydym am i Gaerdydd gael ei dylunio gyda phlant a'i siapia gan eu profiadau, gan gynnwys sut maent yn symud o gwmpas y ddinas ac yn mwynhau mannau cyhoeddus.

Trosolwg a Diben

Wrth wraidd stori Lle Caerdydd mae stori am ail-lunio'r amgylchedd adeiledig fel nad yw plant yn ôl-ystyriaeth mewn dylunio trefol, ond yn ystyriaeth ganolog yn y ffordd y mae'r ddinas yn cael ei chynllunio, ei datblygu a'i phrofi. O'r cychwyn cyntaf, roedd yr uchelgais yn glir: creu dinas lle mae hawliau plant i chwarae, diogelwch, symud, cyfranogiad, iechyd, a pherthyn wedi'u hymgorffori'n systematig yn y lleoedd maen nhw'n eu defnyddio bob dydd.

Yn ystod y cyfnod 2023-2026, symudodd y flaenoriaeth hon o arbrofi cynnar ac ymgysylltu â chynlluniau peilot, i gyfnod o gydgrynhoi polisïau, gweithio partneriaeth ddyfnach, a dechrau newid gweladwy ar lefel gymunedol. Yr hyn sydd wedi dod i'r amlwg yw dull mwy cydlynol, sy'n seiliedig ar hawliau o gynllunio - un sydd fwyfwy yn cyfuno polisi, tystiolaeth, dyluniad, a phrofiadau byw plant i mewn i fodel cyson ar gyfer creu dinas sy'n dda i blant.

Stori Newid (2023-26)

Dechreuon ni sylweddoli..

Pan ymgwymerodd Caerdydd â'i gwaith mapio ac ymgysylltu cymunedol cynnar yn 2022–2023, gan gynnwys mwy na 700 o blant a phobl ifanc, daeth rhywbeth pwysig i'r amlwg: disgrifiodd plant brofiadau o le nad oedd oedolion wedi'u gwerthfawrogi'n llawn.

"Weithiau mae'n teimlo fel bod lleoedd wedi'u cynllunio ar gyfer oedolion, ac mae pobl yn dweud wrthym ble na allwn fynd."

Heriodd y mewnwelediadau cynnar hyn ragdybiaethau a sefydlwyd ers tro ynghylch sut mae plant yn defnyddio mannau cyhoeddus. Gwnaethant dynnu sylw at fylchau mewn mynediad at chwarae, symudiad diogel, mannau cymdeithasol, a dylunio cynhwysol - yn enwedig ar gyfer plant hŷn, merched, a'r rheini mewn cymdogaethau dwysedd uwch.

Daeth y dystiolaeth gynnar hon yn gatalydd ar gyfer symud o weithgaredd ymgysylltu ynysig i ddull mwy strategol, system gyfan.

Ar y pwynt hwn roedden ni'n meddwl tybed...

Beth pe na bai hawliau plant yn cael eu gwahodd i mewn i gynllunio ar sail prosiect wrth brosiect, ond yn cael eu cynllunio i mewn ar lefel polisi, gan siapia sut mae Caerdydd yn tyfu dros y degawd nesaf?

Sbardunodd y cwestiwn hwn drobwynt mawr: integreiddio Polisi Chwarae annibynnol yng Nghynllun Datblygu Lleol Caerdydd (CDLI 2021–2036), gyda chymorth y Canllaw Cynllunio Atodol sydd ar ddod.

Am y tro cyntaf, daeth chwarae - ac felly, hawliau plant - yn ystyriaeth gynllunio statudol gyda dylanwad hirdymor. Roedd hyn yn newid o ymgynghoriadau untro tuag at ymgorffori dull hawliau plant yn fframwaith datblygu'r ddinas.

We decided to change course...

Gyda sylfeini polisi ar waith, symudodd y ffocws o "ymgysylltu fel gweithgaredd" i "ymgysylltu fel tystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau". Symudodd Caerdydd i gyfnod mwy strwythuredig o:

- **Adeiladu gallu system** trwy hyfforddiant swyddogion ac aelodau etholedig, cyfranogiad yn Academi Arweinyddiaeth Urban95, a mwy o lythrennedd hawliau plant ar draws gwasanaethau cynllunio, parciau a thrafnidiaeth.
- **Dyfnhau partneriaethau** â Phrifysgol Caerdydd ac Atkins Realis, gan gyd-greu offer cadarn fel cynlluniau lleoedd, methodolegau mapio, ymchwil HerParks, a fframwaith dylunio sy'n dda i blant.
- **Datblygu fframweithiau ledled y ddinas** megis **Gweledigaeth ar gyfer Chwarae**, cryfhau aliniad trawsadrannol, a darparu glasbrint a rennir ar gyfer cyfleoedd chwarae teg, hygyrch, sy'n cael eu llywio gan y gymuned.

Mae'r newidiadau hyn yn sicrhau bod lleisiau plant, dadansoddiad gofodol, ac egwyddorion dylunio sy'n seiliedig ar hawliau yn siapio prosesau cynllunio ac adfywio fwyfwy.

We knew we were on the right track when...

Erbyn 2025, dechreuodd cynllunio sy'n seiliedig ar hawliau gyfieithu i newid diriaethol.

Cyflwynwyd gwelliannau cymdogaeth ar raddfa fach ond ystyrlon - croesfannau newydd, uwchraddio parciau, llwybrau mwy diogel, a gwelliannau amgylcheddol wedi'u dylanwadu yn lleol - gan y Tîm Adfywio Cymdogaethau mewn ymateb uniongyrchol i adborth plant. Roedd y rhain yn arwyddion cynnar ond pwerus bod y system yn dechrau ymateb mewn amser real i brofiadau byw plant.

Ar yr un pryd, cyfrannodd dros 50 o bobl ifanc at weithdai Cynllun Datblygu Lleol wedi'u targedu, gan gryfhau gwelededd safbwyntiau plant yng nghamau olaf datblygu polisi.

Daeth y **cynlluniau bro cymdogaeth** a ddatblygwyd yn Llanisien a Grangetown yn offer tystiolaeth ymarferol, a ddefnyddir bellach mewn sgysiau gwneud penderfyniadau lleol, wedi'u rhannu ag aelodau etholedig, ac yn dylanwadu ar flaenoriaethau adfywio.

Ac yn hollbwysig, roedd uwch arweinwyr - gan gynnwys aelodau cabinet, swyddogion cynllunio, a phartneriaid ar draws gwasanaethau - yn cyfeirio fwyfwy at hawliau plant mewn trafodaethau

proffesiynol, gan ddangos bod meddwl sy'n seiliedig ar hawliau yn dod yn arferol, ac nid yn eithriado

Crynodeb o'r Effaith

- Mae hawliau plant bellach wedi'u hymgorffori mewn polisi cynllunio statudol trwy Bolisi Chwarae y CDLL.
- Bydd Gweledigaeth Caerdydd ar gyfer Chwarae yn darparu dull cyson o chwarae ledled y ddinas.
- Mae cyfranogiad yn cael ei gynnwys yn gynharach mewn cylchoedd cynllunio, ac nid wedi'i ychwanegu ar y diwedd.
- Mae plant yn cael eu grymuso i siapio eu hamgylcheddau. Trwy fapio, gweithdai, a chynlluniau bro, mae plant wedi dylanwadu ar newidiadau go iawn - megis croesfannau mwy diogel, parciau gwell, a dylunio mannau cyhoeddus.
- Mae eu lleisiau nid yn unig yn cael eu clywed, ond gweithredir arnynt, gan roi cyfrwng iddynt mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau beunyddiol.
- Mae gwasanaethau cynllunio, chwarae a thrafnidiaeth yn defnyddio ffynonellau tystiolaeth a rennir, gan gynnwys data mapio cymunedol, cynlluniau bro, data Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, ac ymchwil academiaidd.
- Mae sesiynau briffio aelodau etholedig a swyddogion (15+ aelod wedi'u hyfforddi yn 2025) wedi creu atebolrwydd gwleidyddol ar gyfer dylunio sy'n seiliedig ar hawliau.
- Mae dolenni adborth yn sicrhau bod plant yn gweld sut mae eu mewnbwn yn arwain at gamau gweithredu.
- Mae gwaith targedig wedi cryfhau cynhwysiant i ferched yn eu harddegau (ymchwil HerParks), cymunedau sydd â llai o fynediad at chwarae diogel, a phobl ifanc mewn ardaloedd dwysedd uchel neu fannau gwyrdd isel.
- Mae'r system yn fwyfwy sylwgar i wahaniaethau, gan sicrhau bod pob plentyn - waeth beth fo'u cefndir - yn elwa o welliannau mewn cynllunio trefol.
- Mae dros 700 o blant yn cymryd rhan mewn mapio.
- Cyfrannodd plant at weithdai lleoedd, ymgynghoriadau ar y CDLL, cynlluniau bro Grangetown a Llanisien, ac ymchwil HerParks.
- Lluniodd plant brosiectau adfywio ar lefel cymdogaeth.
- Mae cydweithwyr cyfranogiad wedi'u hymgorffori'n gynharach mewn prosesau dylunio, gan wneud ymgysylltu yn arferol ac ystyrlon.

Llais y Plentyn

Grangetown i gael eich magu ynddi

Wrth fyfyrto ar werth eu hamgylchedd, nododd pobl ifanc, "Gwnaethon ni ddysgu bod ein cartrefi, strydoedd, ysgolion, meysydd chwarae, parciau, a lleoedd lle rydyn ni'n cwrdd ac yn chwarae ynddyn nhw, yn bwysig iawn."

Gan bwysleisio eu dymuniad am welliannau, ychwanegon nhw, "Rydyn ni am wneud y lleoedd hyn y gorau y gallant fod, fel y gallwn eu mwynhau yn y dyfodol."

Adroddiad Ymgysylltu y CDLI (Ebrill 2025)

Pan ofynnwyd a yw Caerdydd yn cynllunio'r pethau cywir ar gyfer y dyfodol, atebodd un myfyriwr, "Ydy, oherwydd mae yna lawer o fannau gwyrdd, llai o lygredd, a mwy o drafnidiaeth allyriadau isel."

Yn dilyn y gweithdai addysgol ar gynllunio trefol, myfyriodd cyfranogwr arall, "Wyddwn i ddim byd o'r blaen, ond nawr rwy'n deall beth ydyw a sut mae'n effeithio arnom ni."

Llanisien i gael eich magu ynddi

Ar bwnc diogelwch amgylcheddol a thegwch rhywedd, rhannodd un cyfranogwr, "Gall merched deimlo'n fwy diogel pan fydd mwy o oleuadau mewn parciau."

O ran effaith ehangach y fenter, awgrymodd person ifanc, "Pe bai mwy o bobl yn gwybod am hawliau plant, byddai pethau'n well yn gyffredinol."

Mapio Cyngor Mawr y CDLI

Pan roddwyd £10k damcaniaethol i blant ei wario ar welliannau, gwnaethant flaenoriaethu seilwaith sy'n cefnogi diogelwch a natur: Croesfannau Sebra (19.64%), Dim Parthau Ceir (18.5%), a Meinciau (17.58%) oedd y tri phrif ddewis

Pan ofynnwyd i blant ysgol gynradd ddyrannu £10k yn benodol i "Fannau Llawn Hwyl," roedd eu prif flaenoriaethau yn canolbwyntio ar chwarae strwythuredig a naturiol: Derbyniodd Ardaloedd Chwarae (23.31%) a Pharciau Sglefrio (20.88%) y ganran uchaf o'r gyllideb ddamcaniaethol. Llwybrau Beicio (14.68%) ac Ardaloedd Chwarae Naturiol (13.42%) oedd y blaenoriaethau uchaf nesaf.

- Mae'r mewnwelediadau hyn wedi llywio'n uniongyrchol y gwaith o:
- Ddylunio strydoedd a chroesfannau mwy diogel.
- Sgyrsiau gyda'r tîm teithio llesol am symudedd annibynnol.
- Canllawiau dylunio parciau sy'n canolbwyntio ar ofod cymdeithasol yn ogystal â chwarae.
- Camau cynharach o lifoedd gwaith cynllunio ac ymgysylltu.

Safbwyntiau Partner a System

Mae partneriaid yn disgrifio newid mewn diwylliant yn gyson:

- Mae cynllunwyr bellach yn adrodd bod chwarae a defnydd plant o ofod yn ystyriaethau arferol.
- Mae cydweithwyr cyfranogiad yn cymryd rhan yn gynharach mewn prosesau dylunio.

- Mae cydweithredu ar draws adrannau wedi cynyddu, gan gysylltu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, polisi CDLL, trafndiaeth, parciau, iechyd ac adfywio.
- Mae partneriaethau academiaidd wedi cryfhau'r sylfaen dystiolaeth ac wedi sicrhau ymchwil gadarn.

Mae heriau'n parhau - yn enwedig pwysau cystadleuol o ran defnydd tir, cyfyngiadau ariannol, a sicrhau bod ymgysylltu yn cyrraedd grwpiau amrywiol - ond mae'r system yn rhannu iaith a dealltwriaeth gyffredin o hawliau plant mewn cynllunio sy'n seiliedig ar leoedd fwyfw.

Myfyrio a Dysgu

Yr hyn y mae Caerdydd wedi'i ddysgu drwy'r daith hon yw nad yw creu dinas sy'n dda i blant yn ganlyniad un prosiect neu hyd yn oed un polisi - mae'n effaith gronol llawer o newidiadau bach ar draws diwylliant, prosesau a systemau.

Pwyntiau dysgu allweddol:

- Mae newid polisi yn hanfodol, ond mae'r effaith weladwy yn cymryd amser.
- Rhaid i ymgysylltu fod yn gynnar, yn ailadroddus, ac yn gynhwysol - nid yn ddigwyddiad untro.
- Mae ymgorffori hawliau plant yn gofyn am hyder parhaus gan swyddogion a chefnogaeth wleidyddol.
- Rhaid i degwch barhau i fod yn ganolog: mae gwahanol grwpiau yn profi lle yn wahanol iawn.
- Mae fframweithiau dylunio sy'n seiliedig ar hawliau yn helpu i bontio'r bwlch rhwng lleisiau plant a gofynion cynllunio technegol.

Ready for Sustainability (2026–29)

Yn Barod ar gyfer Cynaliadwyedd (2026–29)

Rydym bellach yn cyd-fynd â chamau nesaf y Cynllun Cynaliadwyedd, gan gynnwys:

- Ymgynghoriad systematig wedi'i ymgorffori mewn ardaloedd
- Gweithredu Cynllun Datblygu Lleol sy'n Dda i Blant
- Mabwysiadu a chyflwyno Polisi Chwarae a Chanllawiau Cynllunio Atodol
- Parhau i ddefnyddio fframweithiau dylunio a mapio cymunedol
- Dolenni adborth cryfach sy'n dangos i blant sut mae eu barn yn dylanwadu ar benderfyniadau

Mae Caerdydd bellach yn cychwyn ar y cam nesaf gyda sylfeini polisi cryf, buddugoliaethau cynnar ar lawr gwlad, a system sy'n aeddfedu sy'n cydnabod plant yn fwyfwy fel rhanddeiliaid cyfreithlon yn nyluniad a llywodraethiant eu dinas.

3. Cyfranogiad

Rydym am sicrhau bod barn a phrofiadau plant a phobl ifanc yn cael ei defnyddio'n rheolaidd i helpu i lunio, gwella ac adolygu polisiau, gwasanaethau a rhaglenni.

Trosolwg a Diben

Mae'r flaenoriaeth hon yn ymwneud â sicrhau bod plant a phobl ifanc yng Nghaerdydd yn gyfranogwyr gweithredol wrth lunio polisiau, gwasanaethau a phenderfyniadau'r ddinas. Mae'n ceisio gwneud cyfranogiad yn rhan arferol o sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, ac nid yn ymarfer untro. Y nod yw sicrhau bod data ansoddol a phrofiadau byw plant a phobl ifanc yn llywio dylunio, datblygu a gwerthuso gweithgarwch y Cyngor a phartneriaid yn gyson.

Mae cyfranogiad yn cefnogi'n uniongyrchol Amcan Lles Cyngor Caerdydd i wneud Caerdydd yn "lle gwyh i gael eich magu" ac yn cyd-fynd ag ymrwymïadau'r Cyngor o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae hefyd yn sail i uchelgais ehangach y fframwaith strategol "Cryfach, Tecach, Gwyrddach" a'r rhaglen Dinas sy'n Dda i Blant, gan ymgorffori dull hawliau plant.

Ers ei hachrediad yn 2023, mae'r ddinas wedi cryfhau ei strwythurau cyfranogiad, ac wedi ehangu cyfleoedd i gynnwys plant iau trwy'r Pecyn Cymorth Gweithredu Cymdeithasol i Blant dan 11 oed. Mae gwaith wedi canolbwyntio ar sicrwydd ansawdd, datblygu dolenni adborth, a defnyddio data i nodi anghydraddoldebau mewn cyfranogiad trwy adolygiad cyfranogiad.

Yn ystod Blwyddyn 2, canolbwyntiodd y ddinas ar gryfhau ei dull o ymgysylltu ystyrlon trwy ddatblygu fframwaith cyfranogiad sy'n nodi arddangosiad clir o sut mae'r ddinas yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc. Ochr yn ochr â hyn, dyluniodd a chyflwynodd y ddinas adolygiad cyfranogiad, gan gasglu mewnwelediadau gan randdeiliaid i ddeall beth oedd yn gweithio'n dda, a lle roedd bylchau neu anghysondebau yn bodoli ar draws gwasanaethau. Bydd canfyddiadau'r adolygiad hwn yn llywio'n uniongyrchol y gwaith o greu cynllun gweithredu adolygu cyfranogiad â ffocws, gan sicrhau bod ymgysylltu yn y dyfodol yn fwy cydlynol, cynhwysol ac effeithiol.

Roedd plant a phobl ifanc yn rhan o'r cychwyn cyntaf wrth lunio diben a blaenoriaethau gwaith cyfranogi ledled y ddinas. Roedd eu hadborth drwy'r Cyngor Mawr, gweithdai ysgolion, a fforymau ieuenctid yn llywio sut mae'r flaenoriaeth hon yn cysylltu â nodau ehangach Caerdydd sy'n Dda i Blant. Maent wedi helpu i ddiffinio sut beth yw "cyfranogiad ystyrlon", gan sicrhau nad ymgynghori yn unig ydyw, ond ei fod yn ymwneud â gwneud penderfyniadau ar y cyd.

Stori Newid (2023-26)

Mae Caerdydd wedi gwneud cynnydd da o ran ymgorffori cyfleoedd cyfranogi cyson o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc rhwng 11 a 25 oed, gyda gwaith datblygu i gyrraedd a chynnwys pobl dan 11 oed. Mae cyfranogiad bellach yn rhan gydnabyddedig a gwerthfawr o ddiwylliant y Cyngor, gyda chefnogaeth arweinyddiaeth gan aelodau etholedig ac uwch swyddogion.

Mae pobl ifanc wedi bod yn ganolog i yrru newid, cyd-ddatblygu blaenoriaethau, eistedd ar baneli craffu a recriwtio, a llunio polisiau fel y Strategaeth Cynhwysiant Addysg, Strategaeth Cyfranogiad Gwasanaethau Plant, a'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae eu cyfranogiad wedi cynyddu ansawdd ac atebolrwydd y gwaith o wneud penderfyniadau. Mae mentrau a arweinir gan ieuencid yn dangos diwylliant cynyddol o arweinyddiaeth a rennir rhwng pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol.

Cryfhau Llais ac Arweinyddiaeth Ieuencid

Dros ddwy flynedd gyntaf y cynllun cynaliadwyedd, cefnogodd y ddinas bobl ifanc i arwain a llunio Cyngor Ieuencid Caerdydd, fforwm ieuencid ledled y ddinas. Mae'r strwythur hwn yn darparu llwyfan i bobl ifanc godi materion sy'n bwysig iddynt, cyd-ddylunio ymgyrchoedd, a dylanwadu ar flaenoriaethau ledled y ddinas. Mae'r pwyslais wedi bod ar lywodraethu dan arweiniad ieuencid, gan gefnogi pobl ifanc i gynllunio a hwyluso eu cyfarfodydd eu hunain, gosod agendâu, ac ymgysylltu â nifer o bobl, arbenigwyr ac asiantaethau allanol mewn amrywiaeth o feysydd.

Mae pobl ifanc wedi dangos hyder a pherchnogaeth gynyddol o'r mannau hyn, gan ymgymryd â rolau a gweithio ar y cyd â'r partneriaid hyn i ddylanwadu ar newid.

Cynrychiolaeth wrth Wneud Penderfyniadau

Mae plant wedi eu cefnogi i eistedd ar ystod o fyrddau strategol a gweithgorau, gan sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu cynrychioli lle gwneir penderfyniadau allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys pwyllgorau sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc, yr amgylchedd, cymuned a thai, yr economi a diwylliant, ac ymrwymiad Caerdydd i helpu pobl sy'n gadael addysg brif ffrwd i gael lle i fynd iddo, boed hynny'n addysg bellach, swydd neu brofiad gwaith.

Trwy fentora strwythuredig a deunyddiau briffio hygyrch, mae cyfranogwyr ifanc wedi'u paratoi i gyfrannu'n ystyrion ac adrodd yn ôl i'w cyfoedion. Mae'r dull hwn wedi cynyddu gwelededd a dylanwad plant wrth wneud penderfyniadau strategol.

Creu Cyfleoedd o Ansawdd Uchel ar gyfer Dylanwad

Mae Caerdydd wedi buddsoddi mewn ehangu nifer ac ystod y cyfleoedd i blant rannu eu barn ar faterion lleol a chenedlaethol. Rhwng 2023 a 2025, cyfrannodd pobl ifanc at ymgynghoriadau ar y Cynllun Datblygu Lleol, blaenoriaethau teithio llesol, digwyddiadau'r ddinas, a chynhwysiant

addysg. Mae gweithgareddau ymgysylltu wedi defnyddio dulliau creadigol a digidol fwyfwy, o arolygon a thrafodaethau ar-lein i weithdai wedi'u hwyluso, gan wneud cyfranogiad yn fwy hygyrch ac apelgar.

Adolygu a Chryfhau Cyfranogiad System Gyfan

Carreg filltir bwysig ym Mlwyddyn 2 oedd datblygu'r Adolygiad Cyfranogiad, a oedd yn archwilio arferion cyfranogiad ar draws y Cyngor, ysgolion ac asiantaethau partner, gan gynnwys darpariaethau arbenigol. Nododd yr adolygiad arfer da, meysydd i'w datblygu, a bylchau mewn cyrhaeddiad a chysondeb. Bydd Cynllun Gweithredu Adolygu Cyfranogiad yn cael ei ddatblygu, a'i gyflwyno ar y cyd ar draws adrannau a phartneriaid.

Roedd yr adolygiad yn cynnwys chwe argymhelliad allweddol i gryfhau sut mae plant a phobl ifanc yn ymwneud â llunio eu dinas. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar gynyddu ymwybyddiaeth a gweithredu Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Cymru drwy hyfforddiant ac arweiniad hygyrch, a chefnogi pob sefydliad i ddatblygu polisïau a strategaethau cyfranogiad clir sy'n ymgorffori dull cyson, sy'n seiliedig ar hawliau. Mae'r adolygiad hefyd yn tynnu sylw at yr angen i gryfhau dulliau adborth, fel bod pobl ifanc yn gallu gweld yn glir sut mae eu mewnbwn yn arwain at gamau gweithredu, gyda chefnogaeth dulliau creadigol a log cyfranogiad canolog. Mae mwy o gynhwysiant yn cael ei annog trwy ehangu ymgysylltiad â grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, a sicrhau bod cyfleoedd cyfranogi yn hygyrch i bawb. Dylid gwella cydweithredu a dysgu a rennir trwy rwydwaith ledled y ddinas a hyb ar-lein, gan alluogi sefydliadau i gyfnewid gwybodaeth ac arfer da. Yn olaf, mae'r adolygiad yn galw am ddathlu a chydabod llwyddiant cyfranogiad trwy ddigwyddiadau a chyfathrebu blynyddol sy'n tynnu sylw at gyflawniadau plant, pobl ifanc ac ymarferwyr, gan helpu i gynnal momentwm a balchder yn nhaith hawliau plant Caerdydd.

Mae angen i'r adolygiad cyfranogiad nawr ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn ogystal ag edrych ar systemau lleol o gyfleoedd cyfranogi. Helpodd aelodau Cyngor Ieuenctid Caerdydd i gyd-ddylunio arolwg adolygu cyfranogiad plant a phobl ifanc, ac ynghyd â hyn y cam nesaf yw gweithio ar lefel leol, o bosib gyda chlystyrau ysgolion i weld pa ddulliau, systemau neu gyfleoedd cyfranogol sydd ar gyfer plant a phobl ifanc i helpu i lunio gwasanaethau lleol.

Ymgorffori Tystiolaeth a Data drwy'r Arolwg RhYIY

Mae Caerdydd yn parhau i hyrwyddo cyfranogiad yn arolwg Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (RhYIY), gan gefnogi ysgolion i ddehongli a defnyddio'r canfyddiadau. Cymerodd bron 130,000 o ddisgyblion ledled Cymru, ac 11,514 o ddisgyblion yng Nghaerdydd ran yn 2024, gan ddarparu data cyfoethog ar les, perthyn, a llais mewn lleoliadau addysg. Mae data penodol Caerdydd wedi'i rannu â swyddogion y Cyngor, a'i ddefnyddio i lywio camau gweithredu wedi'u targedu ynghylch cynhwysiant, iechyd meddwl ac ymgysylltu ag ysgolion. Mae'r cydweithrediad â'r RhYIY wedi gwella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer cyfranogiad, gan sicrhau bod profiadau byw pobl ifanc yn llywio polisi lleol a gwella gwasanaethau.

Ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifanc mewn Datblygu Polisi

Mae cyfranogiad wedi bod yn ganolog i ddatblygu'r Strategaeth Cynhwysiant Addysg, gan sicrhau bod safbwyntiau pobl ifanc yn siapio ei blaenoriaethau a'i chynllun cyflawni.

Ymgysylltwyd â phlant a phobl ifanc drwy grwpiau ffocws, gweithdai, ac ar-lein i archwilio rhwystrau i gynhwysiant, profiadau o gefnogaeth, a syniadau ar gyfer creu amgylcheddau ysgol mwy cynhwysol. Mae eu mewnwelediadau yn llywio'n uniongyrchol flaenoriaethau drafft, ac maent bellach yn cael eu hadlewyrchu yn iaith a thôn y strategaeth. Mae enghreifftiau'n cynnwys Strategaeth Cynhwysiant Addysg, Strategaeth Cyfranogiad Gwasanaethau Plant, a'r Cynllun Datblygu Lleol.

Mae'r broses hon yn modelu arfer da mewn ymgysylltu, cyfranogiad cynnar, deunyddiau hygyrch, ac adborth clir ar sut mae cyfraniadau yn siapio'r canlyniad. Helpodd hefyd i gryfhau perthnasoedd rhwng swyddogion polisi, ysgolion, a chyfranogwyr ifanc.

Gwasanaeth Rhianta Caerdydd - Defnyddio Canllaw Rhyngweithio Fideo (CRhF) gyda rhieni a thimau Rhieni a Mwy a Rhieni yn Gyntaf a Arweinir gan Seicoleg

Dull gweithredu

Mae Canllaw Rhyngweithio Fideo yn ddull sy'n seiliedig ar gryfder lle rydym yn defnyddio fideo i helpu teuluoedd i ganolbwyntio ar adegau y mae rhyngweithiadau'n mynd yn dda, fel y gallant adeiladu ar yr eiliadau hyn o ryngweithio cadarnhaol a dysgu ohonynt. Argymhellir CRhF fel ymyrraeth ar sail tystiolaeth yng nghanllawiau NICE (ar gyfer plant a fabwysiadwyd o ofal neu sydd mewn perygl o fynd i ofal). Mae'n cynnwys cymryd recordiadau fideo o'r rhiant a'r plentyn yn rhyngweithio, yna mae'r ymarferydd yn rhannu clipiau byr o'r eiliadau gorau o'r rhyngweithio â'r teulu, yn yr hyn a elwir yn adolygiad a rennir.

Yn yr "adolygiadau a rennir" hyn, rydym yn defnyddio'r clipiau byr i gefnogi'r teulu i fyfyrion ar yr hyn sy'n mynd yn dda a'u cefnogi i feddyliaethu eu hunain a'u plant. Mae'r broses hon yn grymuso rhieni i nodi eu cryfderau a'u pwyntiau gwaith eu hunain.

O fewn Gwasanaeth Rhianta Caerdydd, gan gynnwys timau Rhieni a Mwy a Rhieni yn Gyntaf a Arweinir gan Seicoleg, defnyddir Canllaw Rhyngweithio Fideo (CRhF) gyda rhieni a babanod fel dull sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n canolbwyntio ar ryngweithiadau cydweddus ac ymatebol. Trwy fyfyrion gyda'i gilydd ar glipiau fideo byr o eiliadau cadarnhaol, cefnogir rhieni i ddeall meddyliau, teimladau ac ymddygiadau eu babi, gan gryfhau perthnasoedd ymlyniad diogel sy'n helpu plant i ddysgu am ddiogelwch ac ymddiriedaeth. Er ei fod yn arbennig o werthfawr yn y 1,000 diwrnod cyntaf o fywyd, pan fydd perthnasoedd cynnar yn fwyaf dylanwadol, mae CRhF yn cydnabod bod dysgu yn digwydd ar draws pob perthynas, a gall fod o fudd i deuluoedd ar unrhyw gam.

Canfu Rhieni a Mwy fod y sgôr Cynhesrwydd cyfartalog rhieni wedi cynyddu gan 4 pwynt, a gostyngodd y sgôr Ymledoldeb cyfartalog gan 5 pwynt, ar ôl defnyddio CRhF.

Adborth rhieni - "Mae fy ngorbryder o ran fy mhlentyn wedi lleihau, rwy'n teimlo'n llawer mwy hyderus fel rhiant. Oherwydd hyn, rwy'n mwynhau bod yn fam, rhywbeth nad oeddwn erioed wedi meddwl y byddai'n digwydd. Mae'r fideos wedi bod yn anhygoel. Trwy'r fideos rydych chi wedi fy helpu i weld pa mor bwysig ydw i iddi, a pha mor dda yw'r berthynas sydd gennym ni â'n gilydd. Rydych chi wedi gadael i mi weld trwy'r fideos sut rwy'n cyfrannu at wneud i fy mhlentyn deimlo'n hapus ac yn fodlon. A fy mod i'n rhan fawr o pam ei bod hi'n fabi mor hapus."

Llais y plentyn bach "Dwi wrth fy modd pan mae fy mam yn chwarae gyda mi. Mae hi'n llawer o hwyl ac mae hi wrth ei bodd o fod gyda fi. Mae hi'n fy neall yn fwy na neb arall yn y byd, ac mae hynny'n fy helpu i deimlo'n ddiogel a fy mod wedi fy ngharu.

Crynodeb o'r Effaith

- Plant sy'n cael eu cefnogi i arwain a rhedeg fforwm ieuenctid ledled y ddinas
- Cynrychiolaeth wedi'i sefydlu ar sawl corff gwneud penderfyniadau strategol
- 286 o gyfleoedd cyfranogi o ansawdd uchel wedi'u darparu ar draws themâu a grwpiau oedran amrywiol
- Dros 2,000 o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn cyfleoedd cyfranogi
- 6,197 o oriau gwirfoddoli wedi'u cwblhau drwy ddulliau cyfranogol
- Adolygiad Cyfranogiad Cynhwysfawr wedi'i gwblhau a Chynllun Gweithredu yn cael ei ddatblygu
- Data RhYIY wedi'i ddefnyddio ar gyfer dylunio polisi a gwasanaethau
- Dylanwadodd plant yn uniongyrchol ar ddatblygiad y Strategaeth Cynhwysiant Addysg
- Adborth wedi'i olrhain a dulliau wedi'u cyflwyno i gynyddu tryloywder
- Perthnasoedd cryfach, mwy diogel rhwng rhieni a'r plentyn
- Mwy o hyder gan y rhieni, a llai o orbryder
- Gwell argaeledd emosiynol
- Newidiadau cadarnhaol, mesuradwy mewn canfyddiadau sy'n gysylltiedig ag ymlyniad
- Effaith amddiffynnol ar blant sy'n profi adfyd

Llais y Plentyn

Mae dyfyniadau, nodiadau cyfarfodydd, ac ymatebion arolwg yn dangos sut mae plant a phobl ifanc yn disgrifio teimlo eu bod yn cael eu clywed, eu parchu a'u grymuso. Roedd eu geiriau yn llywio ymrwymadau newydd yn uniongyrchol - megis dolenni adborth cliriach, cyfranogiad wyneb yn wyneb estynedig, a chydabyddiaeth trwy dystysgrifau gwirfoddoli a thalebau. Mae pob enghraifft yn dangos sut mae eu hadborth yn cael ei drosi i gamau gweithredu. Dangosir rhai isod:

"Rydyn ni'n gwybod bod y Cyngor yn gwrando, ond weithiau nid ydym yn clywed yn ôl am yr hyn sy'n digwydd nesaf."

Ymateb: Cyflwyno diweddariadau Materion Misol, a gwell cyfathrebu ar amserlenni penderfyniadau.

"Mae'n dda siarad am y ddinas, nid am bethau sy'n ymwneud â'r ysgol yn unig. Gwnaethon ni rannu syniadau am fysus a mannau gwyrdd."

Ymateb: Ymgysylltu ehangach y tu hwnt i addysg i gynnwys polisïau trafndiaeth, cynllunio ac amgylchedd.

"Roedden ni am i blant iau gael dweud eu dweud hefyd, felly gwnaethon ni helpu i brofi'r Pecyn Cymorth Dan 11 oed."

Ymateb: Cyd-greu'r pecyn cymorth gyda'r fforwm ieuenctid ac ysgolion, a'i dreialu mewn ysgolion cynradd.

"Mae'n teimlo fel bod oedolion yn ein cymryd o ddifrif pan rydyn ni'n rhannu syniadau."

Ymateb: Parhau i ddarparu cyfleoedd i blant gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau, a dylanwadu ar ddylunio gwasanaethau.

Safbwyntiau Partner a System

Mae pobl ifanc wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â phartneriaid allweddol gan gynnwys Citizen Cymru, Plant yng Nghymru, a'r Asiantaeth Ieuenctid Genedlaethol ymysg eraill. Mae eu cydweithrediad wedi dylanwadu ar arfer ar draws gwasanaethau, gan hyrwyddo cyfranogiad cydgysylltiedig ar draws addysg, iechyd a gofal cymdeithasol. Maent hefyd wedi cryfhau partneriaethau traws-ddinesig a rhyngwladol, er enghraifft gyda Chynghorau Ieuenctid Stuttgart a St Helens.

Mae partneriaid allweddol, gan gynnwys Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd, Addysg, Cynllunio, Iechyd y Cyhoedd, a Chyngor Trydydd Sector Caerdydd, wedi bod yn allweddol wrth ddatblygu gwaith. Mae partneriaid yn disgrifio'r dull fel "model cydgysylltiedig sy'n grymuso pobl ifanc i lunio gwasanaethau yn hytrach na dim ond ymgynghori arnynt."

Mae ysgolion wedi croesawu cyfranogiad trwy rwydweithiau GYPH a diwrnodau democratiaeth leol. Mae'r timau Cynllunio a Thrafnidiaeth wedi cyfeirio at ddulliau cyfranogiad CDdB fel rhai sy'n dylanwadu ar y Cynllun Datblygu Lleol ac ymgynghoriadau Teithio Llesol.

Mae partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd ac Academi Urban95 wedi cryfhau ymchwil gyfranogol, wrth i gydweithredu â'r Tîm Cydraddoldeb gefnogi dadansoddiad croestoriadol o fewn y dangosfwrdd data newydd.

Mae'r rhwystrau wedi cynnwys diffyg amser, cyllid ac adnoddau staff, cyfranogiad symbolaidd neu arwynebol, ac ymrwymiad sefydliadol neu gefnogaeth arweinyddiaeth cyfyngedig.

Myfyrio a Dysgu

Mae plant a phobl ifanc wedi myfyrio'n gyson ar yr hyn sy'n gweithio a'r hyn y gellid ei wella, gan ofyn am fwy o gynulliadau wyneb yn wyneb, gwell cyfathrebu, a chysylltiadau cryfach â Senedd leuenctid Cymru ac Aelodau'r Senedd. Mae eu hadborth yn siapio dyluniad fframweithiau cyfranogiad yn y dyfodol a dulliau monitro, gan sicrhau cynaliadwyedd a gwelliant parhaus.

Yr hyn oedd yn gweithio'n dda:

- Sicrhodd ymgorffori cyfranogiad o fewn strwythurau polisi a llywodraethu welededd ac atebolrwydd gwleidyddol. E.e. datblygu'r Strategaeth Cyfranogiad ar gyfer Cyngor Caerdydd a strategaeth cyfranogiad benodol y Gwasanaethau Plant.
- Darparodd yr Adolygiad Cyfranogiad sylfaen gadarn ar gyfer gwella, a helpodd i lunio camau gweithredu ymarferol.
- Mae cyflwyno'r Ddolen Adborth wedi dechrau mynd i'r afael â gofyniad amodol UNICEF a chynyddu tryloywder.

Heriau:

- Mae cyrraedd pobl dan 11 oed a grwpiau blaenoriaeth sydd angen cymorth pwrpasol ac ychwanegol er mwyn iddynt gael eu clywed yn parhau i fod yn faes sy'n datblygu.
- Mae prosesau adborth yn dal i fod yn anghyson ar draws adrannau ac yn dibynnu ar gydlynw canolog.

Mae adnoddau cyfyngedig yn cyfyngu ar raddfa gweithgarwch cyfranogiad.

- Dysgu ar gyfer y Cynllun Cynaliadwyedd nesaf (2026–2029):
- Cryfhau llwybrau cyfranogiad ar gyfer plant oedran cynradd a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Gwella dulliau adborth ymhellach ar draws pob cyfarwyddiaeth gydag atebolrwydd clir.
- Parhau i ddatblygu dangosfyrddau data / Padlet ar gyfer monitro cyfranogiad.
- Cyflwyno argymhellion o'r adolygiad cyfranogiad.
- Ymestyn yr adolygiad cyfranogiad i edrych ar fodel clwstwr ysgolion lleol o leisiau/fforwm a systemau.

4. Cyfartal a Chynwysedig

Yng Nghaerdydd, rydym am i bob plentyn gael ei drin ag urddas a pharch ac yn rhydd rhag gwahaniaethu.

Trosolwg a Diben

Mae pob plentyn a pherson ifanc yng Nghaerdydd yn cael eu trin ag urddas a pharch ac yn rhydd rhag gwahaniaethu.

Ers lansio Cynllun Cynaliadwyedd Caerdydd sy'n Dda i Blant, mae'r thema Cyfartal a Chynwysedig wedi dod yn angor i waith sy'n seiliedig ar hawliau ein dinas, sy'n ceisio mynd i'r afael â materion anghydraddoldeb yn y ddinas.

Stori Newid (2023-26)

Mae ein gwaith yn ystod 2023–26 wedi canolbwyntio ar leihau rhwystrau, herio gwahaniaethu, a chreu amgylcheddau lle mae pob plentyn yn teimlo ei fod yn perthyn.

Ym maes addysg, mae datblygu Strategaeth Addysg a Chynhwysiant Caerdydd (2025) yn gam mawr ymlaen. Mae'r strategaeth, sydd wedi'i chydgyhyrchu ag ysgolion, plant a theuluoedd, yn diffinio cynhwysiant trwy berthyn, y dylai pob dysgwr deimlo ei fod yn cael ei dderbyn, ei barchu a'i gefnogi i ffynnu. Mae'r strategaeth wedi'i seilio ar dystiolaeth: data presenoldeb a gwahardd, cysylltiadau cyfiawnder ieuencid, ac adborth gan ddisgyblion a rhieni a siaradodd yn onest am yr heriau y maent yn eu hwynebu. Mae'n nodi camau gweithredu ymarferol i gryfhau arfer cynhwysol, gwella ymgysylltiad, a sicrhau'r ddarpariaeth a'r gweithlu cywir i ddiwallu anghenion amrywiol.

Ochr yn ochr ag addysg, mae'r Strategaeth Dinas sy'n Deall Niwrowahaniaeth wedi ehangu cynhwysiant y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, gan helpu i adeiladu ymwybyddiaeth, iaith ac atebolrwydd ar draws gwasanaethau. Mae'r gwaith wedi ei lywio gan brofiadau byw pobl ifanc, gan atgyfnerthu bod hygyrchedd yn ymwneud ag addasiadau yn ogystal â pherthnasoedd ac agweddau.

Mae Caerdydd hefyd wedi parhau i arwain ar degwch rhywedd a diogelwch, gan gryfhau cysylltiadau â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Gwahaniaethu yn erbyn Menywod (CEDAW). Mae partneriaeth â Rhwydwaith Menywod y Cyngor a'r rhaglen urddas mislif wedi hyrwyddo mynediad at nwyddau, addysg a hyder i ferched ym mhob ysgol. Mae cydraddoldeb hefyd wedi'i hyrwyddo trwy'r rhaglen arweinyddiaeth ar gyfer pobl ifanc sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, gan adeiladu llwybrau i rolau dinesig a dinasyddiaeth weithgar sy'n adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth iau y ddinas.

Mae ein partneriaeth barhaus gydag Ein Llais Ein Taith wedi cryfhau ymrwymiad Caerdydd i degwch rhywedd trwy ennyn diddordeb bechgyn ac ymarferwyr mewn sgysiau am barch, perthnasoedd a chyfrifoldeb mewn ysgolion a chymunedau yn dilyn cais uniongyrchol gan ferched yn ein gwaith cynharach.

Mae agenda cydraddoldeb y ddinas wedi ehangu ymhellach trwy bartneriaethau â DARPL, Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, ac Ysgolion Noddfa, gan sicrhau nad yw amrywiaeth a gwrth-hiliaeth yn bynciau ymylol ond yn ganolog i sut mae ysgolion, gwasanaethau ieuenctid, a chymunedau yn deall cynhwysiant.

Mae ein partneriaeth ag Omidaze Productions wedi helpu disgyblion i ddysgu sut mae Caerdydd yn gweithredu, a phwy sy'n gwneud y penderfyniadau sy'n siapio eu bywydau drwy ystyried dull sy'n seiliedig ar y cwricwlwm. Trwy weithdai a pherfformiadau creadigol, mae plant wedi gallu rhannu eu barn yn uniongyrchol ar flaenoriaethau'r Cyngor, gan fagu eu hyder fel dinasyddion gwybodus a gweithgar.

Mae gweithredu cynllun peilot cenedlaethol yng Nghaerdydd, sy'n golygu bod plant rhwng 5 a 21 oed yn gallu cael mynediad at deithio ar fysus am bris gostyngol, yn ceisio mynd i'r afael â'r rhwystrau a nodwyd yn ein gwaith cynharach, ac mae'n gam pwysig tuag at wella mynediad at gyfleoedd hamdden, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Mae Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd yn mabwysiadu dull myfyriol a thrwy dystiolaeth o fynd i'r afael ag anghymesuredd, gan ddefnyddio proffilio llwyth achosion parhaus a dadansoddiadau manwl i fonitro ethnigrwydd a chanlyniadau. Mae profiadau plant a phobl ifanc yn llywio'r gwaith hwn, ochr yn ochr â chynllun gweithredu clir i ymgorffori ffocws cyson ar anghymesuredd ar draws sicrwydd ansawdd, goruchwyllo a datblygu'r gweithlu. Mae'r gwaith hwn wedi'i ategu gan ymrwymiad cryf i ddull Plentyn yn Gyntaf, wedi'i wreiddio yng CCUHP, gan sicrhau arferion teg, cynhwysol ac sy'n parchu hawliau.

Rhesymu

Trwy'r myfyrdod hwn, mae ffocws Cyfartal a Chynwysedig wedi esblygu o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ynysig i greu systemau teg. Mae Caerdydd bellach yn ymdrin â chynhwysiant fel peth perthynol - am sut rydyn ni'n ymddwyn, yn gwrando, ac yn gwneud penderfyniadau - yn ogystal â mew'n cyd-destun polisi. Mae iaith hawliau wedi bod yn offeryn uno, gan helpu gweithwyr proffesiynol ar draws gwasanaethau i weld cydraddoldeb nid fel ychwanegiad dewisol, ond fel rhan annatod o les a diogelwch plant.

Mae'r Strategaeth Addysg a Chynhwysiant yn symboleiddio'r esblygiad hwn. Nid cynllun addysg yn unig ydyw; mae'n dal dysgu ar y cyd y ddinas ar yr hyn y mae'n ei olygu i ddatblygu'r synnwyr o berthyn. Mae'n defnyddio lleisiau plant yn uniongyrchol: mae eu synnwyr bod eraill yn sylwi arnynt, eu bod yn cael eu parchu, eu cynrychioli, yr un mor bwysig â llwyddiant academaidd. Mae'r mewnwelediad hwnnw wedi llywio arfer ar draws sectorau eraill - o gynllunio trafnidiaeth i chwarae ac iechyd - gan ymgorffori dealltwriaeth a rennir bod cynhwysiant yn berthnasol i bawb.

Llais y Plentyn

"Weithiau nid yw rheolau'n deg i bawb." - Adborth, a gasglwyd trwy ymgysylltu ar gynhwysiant addysg

"Rydyn ni am weld pobl fel ni yn arwain." - Galwadau pobl ifanc am gynrychiolaeth amrywiol a chyfleoedd arweinyddiaeth

"Mae cael eich cynnwys yn golygu bod rhywun yn sylwi pan fyddwch chi'n cael trafferth." - Adborth gan ddisgybl ar ffocws nodi angen yn gynnar, arfer sy'n seiliedig ar drawma, a chymorth lles mewn ysgolion a gwasanaethau.

"Os yw'r ddinas ar gyfer pawb, dylai pawb deimlo'n ddiogel wrth fod yn nhw eu hunain." - Mewnwelediad gan blentyn sy'n ymwneud â gwaith ar niwroamrywiaeth.

"Gwnaeth i mi feddwl i ba raddau mae parch yn bwysig."

Persbectif Partneriaethau a Systemau

Mae cynnydd dan y flaenoriaeth Cyfartal a Chynwysedig wedi'i gefnogi gan waith partneriaeth cryf ar draws gwasanaethau'r Cyngor a chyda sefydliadau allanol, gan adlewyrchu ymrwymiad a rennir i hawliau plant. Mae Addysg, Cydraddoldeb, Gwasanaethau Ieuenctid, Cynllunio, Trafnidiaeth, Iechyd y Cyhoedd, a Gwasanaethau Plant wedi gweithio ochr yn ochr â phartneriaid fel DARPL, Ysgolion Noddfa, Dangos y Cerdyn Coch i Hilïaeth, Ein Llais Ein Taith, Omidaze Productions, a Rhwydwaith Menywod y Cyngor i ymgorffori cynhwysiant ar draws polisi ac arfer. Mae'r partneriaethau hyn wedi helpu i symud gwaith cydraddoldeb o fentrau ynysig i ddulliau mwy cydgysylltiedig, gyda Chaerdydd sy'n Dda i Blant yn chwarae rôl ymgynnull allweddol er gwaethaf pwysau parhaus ar adnoddau.

Myfyrdodau a Dysgu

Mae'r cam hwn o waith wedi atgyfnerthu bod cynnydd ystyrlon ar gydraddoldeb a chynhwysiant yn dibynnu ar ddysgu cyson y system gyfan, atebolrwydd a rennir, a chyfranogiad parhaus plant a phobl ifanc. Rydym wedi dysgu pwysigrwydd ymgorffori cynhwysiant nid yn unig trwy strategaethau, ond trwy sut mae'r effaith yn cael ei hadolygu, ei monitro a'i hadnewyddu dros amser.

Mae llywodraethu drwy Fwrdd Cynhwysiant Caerdydd yn rhoi cyfle i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cymryd rhan ar adegau allweddol wrth adolygu a chryfhau'r Strategaeth Addysg a Chynhwysiant, ochr yn ochr â gwaith strategol ehangach fel adnewyddu'r strategaeth Addysg 2035. Bydd cynnwys plant a phobl ifanc yn y broses o adolygu mentrau sy'n effeithio ar eu bywydau beunyddiol, gan gynnwys y cynllun teithio bws gostyngol cenedlaethol, effaith y rhaglen arweinyddiaeth Cymerwch Eich Lle ar gyfer pobl ifanc o gefndiroedd ethnig a dosbarth gweithiol, yn bwysig wrth ddeall profiad byw a thegwch mynediad.

Rydym yn gwybod nad ydym wedi cael popeth yn iawn, er enghraifft, dywedodd ysgolion wrthym fod y gwaith i gynnwys disgyblion yn y broses o osod blaenoriaethau'r Cyngor yn bwysig, ond bod angen mwy o amser paratoi, a mwy o gefnogaeth i athrawon a fydd yn cael eu hystyried ar gyfer camau nesaf y gwaith hwn.

Mae ein dysgu hefyd yn tynnu sylw at yr angen i gryfhau'r defnydd croestoriadol o ddata, ymgorffori mesurau cynhwysiant yn gyson ar draws cynlluniau gwasanaeth a dangosfyrddau, ac adolygu effaith gwaith wedi'i dargedu, gan gynnwys gyda bechgyn, i lywio dulliau yn y dyfodol. Wrth symud ymlaen, byddwn yn canolbwyntio ar adeiladu partneriaethau cynaliadwy, a dulliau sy'n seiliedig ar gwricwlwm sy'n grymuso plant, mynd i'r afael â bylchau canlyniadau, a chefnogi newid diwylliannol hirdymor ledled y ddinas.

Casgliad

Mae'r Stori Newid hon yn dangos bod Caerdydd yn gwneud cynnydd gwirioneddol wrth ddod yn ddinas lle mae hawliau plant yn siapio sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, gwasanaethau yn cael eu dylunio, a lleoedd yn cael eu creu. Ar draws addysg, cyfranogiad, cynllunio a chynhwysiant, mae plant a phobl ifanc yn cael eu cydnabod fwyfwy nid yn unig fel defnyddwyr gwasanaeth, ond fel deiliaid hawliau y mae eu lleisiau a'u profiadau yn bwysig.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae hawliau plant wedi symud o uchelgais i gamau gweithredu. Maent yn cael eu hymgorffori mewn polisi, yn cael eu hadlewyrchu mewn ymarfer proffesiynol, ac yn fwyfwy gweladwy yn y systemau sy'n siapio bywyd pob dydd ledled y ddinas. Mae'r cynnydd hwn wedi'i yrru gan weithio mewn partneriaeth, arweinyddiaeth wleidyddol, ac ymrwymiad a rennir i wrando ar blant ac ymateb i'r hyn maen nhw'n ei ddweud wrthym.

Mae'r adroddiad hefyd yn glir bod heriau yn parhau. Mae anghydraddoldeb, angen cynyddol, a phwysau ar wasanaethau cyhoeddus yn golygu bod dull hawliau plant yn bwysicach nag erioed. Mae ymgorffori hawliau yn gofyn am arweinyddiaeth barhaus, atebolrwydd, a buddsoddiad parhaus mewn sgiliau, perthnasoedd a chyfranogiad.

Wrth i Gaerdydd gychwyn ar y cam nesaf, mae'r Stori Newid hon yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer y dyfodol. Drwy barhau i roi hawliau plant wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau, mae Caerdydd yn ailddatgan ei hymrwymiad i fod yn ddinas lle mae pob baban, plentyn a pherson ifanc yn cael eu trin ag urddas, eu parchu a'u cefnogi i ffynnu.